ATODLEN 1 — Rheoliad 2

# Rhan 1

## Diwygiadau i Atodlen 1

**1.** Yn Rhan B mewnosoder ar ôl paragraff 66:

| Y Swyddogaeth | Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol |
|---|---|
| **67.** Swyddogaethau mewn perthynas â sefydlu Pwyllgor Trwyddedu . | Adran 6 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (p.17). |

**2.** Yn Rhan I:

(1) dileer paragraffau 18, 19; a

(2) mewnosoder ar ôl paragraff 17:

| Swyddogaethau | Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol |
|---|---|
| **18.** Y pwerau mewn perthynas â chofrestru gweithredwyr achub cerbydau modur. | Rhan 1 o Ddeddf Cerbydau (Troseddau) 2001 (p.3). |
| **19.** Y pŵer i benodi swyddogion at ddibenion penodol (penodi “priod swyddogion”). | Adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. |
| **20.** Y ddyletswydd i ddynodi swyddog yn bennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod, ac i ddarparu staff etc. | Adran 4(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42). |
| **21.** Y ddyletswydd i ddynodi swyddog yn swyddog monitro, ac i ddarparu staff, etc. | Adran 5(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. |
| **22.** Y ddyletswydd i benderfynu terfyn benthyca fforddadwy. | Adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.22). |
| **23.** Cymeradwyo strategaeth fuddsoddi flynyddol yn unol â chanllawiau. | Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. |
| **24.** Y ddyletswydd i wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu materion ariannol yn briodol. | Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.11). |

# RHAN 2

## Diwygiadau i Atodlen 2

Ar y diwedd, ychwaneger:

“**22.** Swyddogaethau ynglyn â chyfrifo sylfaen y dreth gyngor yn unol ag unrhyw un o'r canlynol —

(a) penderfynu swm ar gyfer eitem T yn adran 33(1) a 44(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;

(b) penderfynu swm ar gyfer eitem TP yn adrannau 34(3), 45(3), 48(3) a 48(4) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992;

(c) penderfynu swm y mae ei angen i benderfynu swm ar gyfer yr eitem a grybwyllwyd ym mharagraff (a) neu (b) uchod.

**23.** Swyddogaethau trwyddedu yn unol â Rhan 2 o Ddeddf Trwyddedu 2003 ac eithrio adran 6."

# RHAN 3

## Diwygiadau i Atodlen 3

**1.** Yng ngholofn (2) o'r paragraff ynglyn â'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol dileer "92" a mewnosoder "108".

**2.** Dileer y cofnod ynglyn â'r Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd.

**3.** Ar y diwedd, ychwaneger:

| **(1) Cynlluniau a Strategaethau** | **(2) Cyfeirnod** |
|---|---|
| Y pwerau i gymeradwyo Cynlluniau Strategol Partneriaeth Pobl Ifanc a Phartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc. | Adrannau 123, 124 a 125 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000. |